
Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2022-23

## Comisiwn y Senedd

Rhagfyr 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2022-23
## Comisiwn y Senedd

Rhagfyr 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

Fel un o Gomisiynwyr y Senedd, esgusododd Adam Price ei hun o'r ymchwiliad hwn:



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** ..... **5**

**1. Cyflwyniad** ..... **6**

**2. Perfformiad ariannol a gweithredol** ..... **8**

Safle cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ..... 8

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol ..... 10

Swyddfa'r Comisiynydd Safonau ..... 11

Cronfa brosiectau ..... 11

Dysgu o'r pandemig COVID-19 ..... 12

Ein barn ni ..... 14

**3. Perfformiad gweithredol** ..... **16**

Gwaith craffu blaenorol ..... 16

Cyd-destun ..... 16

Perfformiad 2022-23 ..... 18

Crynodeb ..... 18

Ymgysylltu (Dangosyddion Perfformiad Allweddol 5-7) ..... 18

Dysgwyr Cymraeg (DPA11) ..... 19

Strategaeth Carbon Niwtral (DPA14) ..... 19

Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru (DPA15) ..... 21

Ein barn ni ..... 22

**4. Y trefniadau llywodraethu a'r rheolaethau mewnol** ..... **24**

Strwythur llywodraethu ..... 24

Ffyrdd o weithio ..... 26

Sicrwydd ..... 27

Ein barn ni ..... 28

**5. Proffil risg ........ 29**

Trosolwg ........ 29

Seiberddiogelwch ........ 30

Diwygio'r Senedd ........ 31

Gallu a chapasiti corfforaethol ........ 32

Ein barn ni ........ 32

**6. Staff ........ 33**

Nifer y staff ........ 33

Absenoldebau a salwch staff ........ 34

Trosiant staff ........ 34

Amrywiaeth y gweithlu ........ 37

Rhywedd ........ 37

Ethnigrwydd ........ 37

Cefndir economaidd-gymdeithasol ........ 39

Bylchau cyflog eraill ........ 40

Camau i'w cymryd ........ 40

Arolygon ........ 41

Arolwg llesiant ........ 41

Iechyd meddwl ........ 43

Arolwg Pobl 2023 ........ 44

Adolygiad o Gapasiti a'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig ........ 45

Ein barn ni ........ 46

**7. Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ........ 48**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Comisiwn sicrhau bod gan y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu prosiectau fel rhan o'r Strategaeth Carbon Niwtral cyn i'r Pwyllgor graffu ar Gyfrifon y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys gwariant fesul prosiect, y cynydd hyd y pwynt hwnnw ac arwydd o unrhyw orwariant neu danwariant. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Comisiwn roi diweddariadau bob chwe mis i'r Pwyllgor, gan ddechrau yng ngwanwyn 2024, ar gynnydd y Strategaeth Ffyrdd o Weithio a'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu i gyflawni'r prosiectau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, dylai'r Comisiwn ystyried cynnwys amcangyfrif o'r tebygolrwydd y bydd risg yn codi, er mwyn llywio ystyriaeth well o broffil risg y Senedd yn y dyfodol. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y grwpiau sy'n edrych ar rôl Deallusrwydd Artiffisial yn y Senedd cyn i'r Pwyllgor graffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2023-24. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Yn y dyfodol dylai'r Comisiwn ystyried rhoi cynlluniau recriwtio ar waith, fel rhan o'i Gynllun Gweithlu, er mwyn annog ceisiadau gan unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd a daearyddol, a hynny er mwyn sicrhau bod y Senedd yn adlewrchu'n well y wlad y mae'n ei chynrychioli. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y gellid gweithredu hyn ac unrhyw dargedau sydd gan y sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol. ........ Tudalen 46

**Argymhelliad 6.** Dylid rhannu'r Cynllun Gweithlu ac unrhyw allbynnau o'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig â'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant ar gael, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Comisiwn yn y dyfodol o ran Diwygio'r Senedd a o dan y Strategaeth Ffyrdd o Weithio. ........ Tudalen 47

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Comisiwn nodi sut y mae'n bwriadu ystyried safbwyntiau'r Aelodau a'u staff fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol o dan y Strategaeth Ffyrdd o Weithio ac unrhyw ffrwd arall o waith sy'n mynd i'r afael â goblygiadau Diwygio'r Senedd. ........ Tudalen 47

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn gorff corfforaethol a'i ddiben yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae ar Senedd Cymru eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Comisiwn ei hun yn cynnwys pum Aelod o'r Senedd, gan gynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebir gan y grwpiau gwleidyddol mwyaf yn y Senedd. Fel corff corfforaethol, mae'r Comisiwn yn berchen ar eiddo ac yn cyflogi staff i reoli ystâd ac adnoddau'r Senedd, i gefnogi trafodion seneddol ac i ymgysylltu â phobl Cymru.

**2.** Mae cyllideb y Comisiwn yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ar gyfer 2024-25 ar 5 Hydref 2023, a chyflwynwyd adroddiad ym mis Hydref. Ymatebodd y Comisiwn ar 9 Tachwedd. Yn unol â hynny, oherwydd nifer o faterion trawsbynciol, mae cyfres o faterion tebyg yn cael eu hystyried yn adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid.

**3.** Gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 y Comisiwn ('y Cyfrifon') gerbron y Senedd ar 29 Mehefin 2023.

**4.** Roedd y Cyfrifon yn destun archwiliad a rhoddwyd barn archwilio rheoleidd-dra ddiamod 'gwir a theg' iddynt. Cynhaliwyd yr archwiliad gan Ann-Marie Harkin (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio), a lofnododd yr adroddiad a'r dystysgrif archwilio, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar 28 Mehefin 2023. Roedd yr archwiliad hwn yn ystyried datganiadau ariannol y Cyfrifon a thablau penodedig yn yr Adroddiad Taliadau a'r Adroddiad Staff.

**5.** Nid archwiliwyd gweddill yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Archwilydd ystyried yr adran arall a nodi unrhyw anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad. Ni nodir unrhyw faterion o'r fath yn yr adroddiad archwilio.

**6.** Gwnaeth y Pwyllgor saith argymhelliad yn ei adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2021-22, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022. Ymatebodd y Comisiwn i'r argymhellion ar 16 Chwefror 2023, gan dderbyn pob un. Ysgrifennodd at y Pwyllgor gyda diweddariadau dilynol ar 6 Mai 2023 ac 11 Gorffennaf 2023.

**7.** Clywodd y Pwyllgor gan Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd), Ken Skates AS (Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu), Kate Innes (Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Senedd) ac Ed

Williams (Cyfarwyddwr Adnoddau’r Senedd) ar 12 Hydref 2023. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor wedi’u nodi isod.

# 2. Perfformiad ariannol a gweithredol

## Safle cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn

**8.** Cafodd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2022-23 ei gymeradwyo ar 17 Tachwedd 2021 a'i ddiwygio drwy gyllidebau atodol dyddiedig Mai 2022 ac Ionawr 2023.

**9.** Mae'r Comisiwn yn adrodd tanwariant cyfanredol o £1.7 miliwn yn erbyn cyfanswm ei gyllideb ddiwygiedig net o £63.9 miliwn, neu 2.7 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig.

**10.** Roedd yr alldro adnoddau net yn ymwneud â gwariant y Comisiwn yn unig (ac eithrio costau'r Aelodau a Gwariant a Reolir yn Flynyddol) yn £43.9 miliwn o gymharu â £41.0 miliwn yn 2021-22, sef cynnydd o 7.1 y cant. Roedd hyn yn danwariant o £1.5 miliwn, neu 3.2 y cant, o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig o £45.3 miliwn.

**11.** Ar wahân i'r ffigurau hyn roedd tanwariant o £273,000 neu 1.6 y cant mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae hyn yn cymharu â thanwariant o £169,000 yn 2021-22 a £577,000 yn 2020-21.

**12.** Mae Tabl 1 isod yn amlinellu sefyllfa diwedd blwyddyn y Comisiwn, rhwng 2017-18 a'r set hon o Gyfrifon.

**Tabl 1: Sefyllfa diwedd blwyddyn y Comisiwn (£'000)**

| Adnoddau: | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| At ddefnydd Comisiwn y Senedd: | | | | | | |
| Cyllideb (£'000) | 37,013 | 37,887 | 40,291 | 41,953 | 41,695 | 45,326 |
| Alldro (£'000) | 37,748 | 38,216 | 39,818 | 41,574 | 40,954 | 43,862 |
| Tanwariant/gorwariant (£'000) | (735) | (329) | 473 | 379 | 741 | 1,464 |
| Tanwariant/gorwariant (%) | (2.0%) | (0.9%) | 1.2% | 0.9% | 1.8% | 3.2% |
| | | | | | | |
| Mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | | | | | | |
| Cyllideb (£'000) | 15,532 | 15,701 | 15,697 | 16,172 | 15,619 | 16,802 |
| Alldro (£'000) | 14,408 | 14,731 | 14,956 | 15,595 | 15,450 | 16,529 |
| Tanwariant/gorwariant (£'000) | 1,124 | 970 | 741 | 577 | 169 | 273 |
| Tanwariant/gorwariant (%) | 7.2% | 6.2% | 4.7% | 3.6% | 1.1% | 1.6% |

**13.** Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r alldro net, a adlewyrchir isod yn Nhabl 2. Am y tro cyntaf, mae llinellau ar wahân wedi'u cynnwys ar gyfer yr adnoddau cymorth gweinyddol ar gyfer y Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynwyr Safonau.

## Tabl 2: Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net ar gyfer 2022-23 (£'000)

| Gwariant refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 27,171 | 27,417 | 246 | 27,241 | 70 | 25,367 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 10,810 | 13,478 | 2,668 | 11,075 | 265 | 12,908 |
| Costau cyfalaf – heblaw arian parod | 5,224 | 2,250 | (2,974) | 6,290 | 1,066 | 2,099 |
| **Gwariant refeniw gros** | **43,205** | **43,145** | **(60)** | **44,606** | **1,401** | **40,374** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (73) | (220) | (147) | (220) | (147) | (61) |
| **Gwariant refeniw net** | **43,132** | **42,925** | **(207)** | **44,386** | **1,254** | **40,313** |
| Gwariant cyfalaf* | 380 | 500 | 120 | 516 | 136 | 641 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **43,512** | **43,425** | **(87)** | **44,902** | **1,390** | **40,954** |
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 16,529 | 17,552 | 1,023 | 16,802 | 273 | 15,450 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad - refeniw | - | - | - | - | - | 1,399 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad – cyfalaf* | - | - | - | - | - | 506 |
| Cymorth y Bwrdd Taliadau | 274 | - | (274) | 352 | 78 | - |
| Swyddfa'r Comisiynwyr Safonau | 76 | 165 | 89 | 72 | (4) | - |

**14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi fel a ganlyn:

- Tanwariant o £70,000 ar gyflogau staff a chostau cysylltiedig (0.3 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig).
- Tanwariant o £265,000 ar gostau nad ydynt yn ymwneud â staff (2.4 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig).
- Tanwariant o £1.1 miliwn ar daliadau cyfalaf – heb fod yn arian parod (16.9 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig).
- Tanwariant o £136,000 ar gyfalaf (26.4 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig).

**15.** Mae'r Comisiwn yn nodi bod y tanwariant yn erbyn y gyllideb at ei ddefnydd ei hun "y tu allan i ystod darged y Comisiwn o 0.0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb"[1]. Mae'n priodoli hyn i danwariant mwy na'r disgwyl yn erbyn y symiau a gyllidebwyd ar gyfer Prydlesi IFRS 16, yn benodol dibrisiant a thaliadau llog tybiannol. Nododd y canlynol:

> *"Ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod, yr alldro oedd £38.3 miliwn yn erbyn cyllideb o £38.6 miliwn, gan arwain at danwariant o 0.84 y cant, sydd ymhell o fewn ystod darged y Comisiwn ac yn adlewyrchu'r dull rhagweithiol o reoli adnoddau'r Comisiwn".*[2]

**16.** Mewn perthynas â thanwariant y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £136,000, neu 26.4 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig, dywed y Comisiwn:

> *"Yn 2022-23 dychwelwyd i lefelau mwy arferol o wariant ar gynnal a chadw'r ystâd ac adnewyddu offer TGCh yn barhaus yn dilyn blwyddyn o orfod blaenoriaethu gwariant mewn ymateb i'r angen i reoli'r pandemig".*[3]

## Y Bwrdd Taliadau Annibynnol

**17.** Roedd yr alldro a adroddwyd ar gyfer cefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn £274,000, a oedd £78,000 o dan y gyllideb ddiwygiedig o £352,000 (neu 22.2 y cant yn llai na'r gyllideb ddiwygiedig).

[1] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23, tudalen 162
[2] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23, tudalen 162
[3] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23, tudalen 162

**18.** Mewn ymdrech i wella tryloywder, mae'r Comisiwn wedi cynnwys llinell ar wahân ar gyfer y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn ei Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2022-23, dyddiedig Mai 2023. Y ffigur a ddyrannwyd yn wreiddiol oedd £259,000, a gynyddwyd wedi hynny £218,000 yn y gyllideb atodol, gan roi cyllideb ddiwygiedig o £477,000.

**19.** Yn Ail Gyllideb Atodol ddilynol 2022-23, dyddiedig Ionawr 2023, gostyngodd y Comisiwn y ffigur hwn £125,000 i £352,000, i adlewyrchu swyddi gwag.

**20.** O ran adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, roedd y tanwariant o'r cyllidebau ar gyfer cyflogau a lwfansau'r Aelodau yn £1,023,000 yn erbyn y gyllideb gymeradwy wreiddiol o £17.6 miliwn, dyddiedig Tachwedd 2022, a £273,000 yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig o £16.8 miliwn, dyddiedig Ionawr 2023.

**21.** Mae'r Cyfrifon hefyd yn nodi bod y Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi cymeradwyo taliad costau byw o £600 i'r holl Staff Cymorth, wedi'i ariannu gan y Penderfyniad.

### Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

**22.** Mae'r alldro wedi'i restru yn £89,000 neu 53.9 y cant yn llai na'r gyllideb gymeradwy wreiddiol, dyddiedig Tachwedd 2022, a £4,000 neu 5.6 y cant yn fwy na'r gyllideb ddiwygiedig, dyddiedig Ionawr 2023.

## Cronfa brosiectau

**23.** Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2021-22, argymhellodd y Pwyllgor:

> *"**Argymhelliad 1.** Hoffai'r Pwyllgor glywed gan y Comisiwn yn flynyddol gyda dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrennir i'r prosiectau unigol hyn. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn i'r Pwyllgor graffu'n flynyddol ar Gyfrifon y Comisiwn".*[4]

[4] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Comisiwn y Senedd, Rhagfyr 2022

**24.** Yn ei llythyr dyddiedig 6 Mai 2023, rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Clerc ddadansoddiad o'r £1.1 miliwn a neilltuwyd i 17 o brosiectau, sydd i'w weld yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cronfa brosiectau – cyllid a ddyrannwyd i brosiectau, 2022-23**[5]

| Prosiect / Eitem | Cyllideb a Neilltuwyd £000 |
|---|---|
| Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac Offer Ymgysylltu Ar-lein. | £66 |
| System Rheoli Prosiectau a Rhaglenni | £69 |
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth: Cerbyd heddlu newydd ac uwchraddio offer | £65 |
| Dychwelyd i'r ystâd ar ôl y pandemig – ailbaratoi desgiau yn Nhŷ Hywel | £37 |
| Gwaith i ailwampio toiledau'r Pierhead | £45 |
| Uwchraddio drws diogelwch y Senedd | £30 |
| Gwaith i addasu Bloc 1A Tŷ Hywel ar gyfer dychwelyd i'r ystâd | £70 |
| Prosiect i wella seiberddiogelwch | £154 |
| Rhaglen dreigl i adnewyddu drysau tân Tŷ Hywel (Cyfnod 5) | £80 |
| Rhaglen dreigl i uwchraddio goleuadau swyddfa LED i arbed ynni | £100 |
| Astudiaeth ddichonoldeb i ddisodli System Rheoli Adeilad y Senedd | £20 |
| Uwchraddio goleuadau LED Siambr y Senedd | £45 |
| Adnewyddu offer canfod mwg y Senedd | £20 |
| Trwsio system trin dŵr uwchfioled y Senedd | £50 |
| Cyngor proffesiynol ar opsiynau strategol y dyfodol ar gyfer ystâd y Senedd | £50 |
| Taliad costau byw i staff y Comisiwn | £97 |
| Amgodwyr Darlledu Newydd a System Ffrydio i'r Cyfryngau Cymdeithasol i barhau â'r ffrwd fyw o drafodion y Senedd | £62 |
| **Cyfanswm** | **£1,060** |

## Dysgu o'r pandemig COVID-19

**25.** Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyfrifon 2021-22, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor fod y Comisiwn yn gobeithio cwblhau ei adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19 erbyn diwedd tymor yr hydref 2022.

**26.** Argymhellodd y Pwyllgor:

> *"… [f]od y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf, o'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad o*

[5] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Mai 2023

> *effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19. Dylai'r diweddariad gynnwys manylion am sut mae effeithlonrwydd, costau, ac arbedion o newidiadau i ffyrdd o weithio a sut y darparwyd gwasanaethau yn ystod y pandemig wedi'u hymgorffori mewn arferion presennol, a sut mae'r arbedion hyn wedi'u gwneud yn rhai rheolaidd. [Argymhelliad 3]"*[6].

**27.** Mewn ymateb i'r adroddiad, cytunodd y Prif Weithredwr a'r Clerc i'r argymhelliad ac i ddarparu diweddariad cyn y gwaith craffu blynyddol yn hydref 2023. Anfonwyd copi o'r Adolygiad Archwilio Mewnol - Gwersi a Ddysgwyd, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2023, at y Pwyllgor, ynghyd â diweddariadau cysylltiedig eraill mewn llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf 2023.

**28.** Roedd yr adolygiad yn crynhoi ymateb y Comisiwn i'r pandemig COVID-19 ac yn myfyrio ar yr effaith ar gyflawni busnes y Senedd, trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, a llesiant staff. Roedd yn nodi cyfres o gamau gweithredu a gymerwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â'r meysydd hyn, ynghyd â dadansoddiad o'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'w profiad.

**29.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch prif ganfyddiadau'r adroddiad, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"The key findings, I think, were that the Commission was able to make an investment in technology to adapt quickly and effectively to new ways of working, which enabled the Senedd to continue its work. I think there was an internal focus, then, on timely and effective decision making, clear communication, use of digital capabilities, and health and safety and well-being. And the well-being, I think, is the third area that I dwell on, because this was at the core of our approach to the pandemic, whether people were working on the premises or remotely".*[7]

[6] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Comisiwn y Senedd, Rhagfyr 2022
[7] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 33

**30.** Mewn perthynas â'r gwersi a ddysgwyd, eglurodd:

> *"I think the ability to make temporary changes to rules of procedure that showed that we could be agile and adaptable in a crisis is something that we have been able to incorporate in this work. We've been able to rely on that learning to have virtual and hybrid committees as part of the repertoire that we're now able to call upon. Committees have also drawn on that learning in terms of being able to access a richer variety and diversity of witnesses, including from more far-flung geographical places, and that has added value, obviously, to our scrutiny and inquiry work".*[8]

**31.** Nododd hefyd fuddsoddiadau mewn meddalwedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel elfen allweddol o gadernid y Senedd, sydd bellach wedi bwydo i mewn i ddull y Senedd o gynllunio'r ystad. Eglurodd fod y dull newydd hwn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd y senedd angen ystad a all gynnwys deddfwyr sy'n ehangu'n barhaus mwyach, a bydd y dull hwn yn cael ei ymgorffori yn y strategaeth ffyrdd o weithio sefydliadol[9].

**32.** O ran llesiant staff, amlinellodd y Prif Weithredwr a'r Clerc gyfres o egwyddorion a fyddai'n parhau am gyfnod amhenodol o fewn y sefydliad:

> *"... timely and effective communication, about making sure we're well informed of the staff's state of mind in terms of pulse surveys, providing suites of tools to support well-being, and encourage virtual team meetings, so that we are strengthening morale and a sense of common purpose".*[10]

## Ein barn ni

**33.** Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi gan y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig COVID-19 a bod y datblygiadau arloesol o'r cyfnod heriol hwn bellach yn cael eu cynnal er budd staff ac Aelodau. Mae effaith y ffordd newydd hon o weithio ar gynllunio'r ystâd yn y dyfodol yn arbennig o nodedig, o ystyried effaith diwygio'r

[8] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 34
[9] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 35
[10] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 36

Senedd ar y sefydliad yn fuan. Bydd y Pwyllgor yn myfyrio ar y themâu hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

# 3. Perfformiad gweithredol

## Gwaith craffu blaenorol

**34.** Fel rhan o'r gwaith craffu ar Gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2019-20, argymhellodd y Pwyllgor:

> *"Dylai Comisiwn y Senedd arwain drwy esiampl drwy osod dangosyddion perfformiad allweddol rheoli ariannol uchelgeisiol sy'n ymdrechu i gael mwy na barn archwilio ddiamod. Dylai'r targedau ystyried pa mor effeithiol, darbodus ac effeithlon y mae'r Comisiwn yn defnyddio ei adnoddau, a dylid eu rhoi ar waith erbyn blwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf. [Argymhelliad 2]".*[11]

**35.** Mewn ymateb i'r argymhelliad, nododd y Comisiwn hyn a dywedodd y bydd:

> *"... byddwn yn adolygu'r dangosyddion perfformiad corfforaethol yn ystod 2021-22 ac yn ystyried a fyddai unrhyw ddangosyddion ychwanegol yn cynnig mwy o eglurder o ran effeithlonrwydd. Caiff y rhain eu rhoi ar waith yn ystod 2022-23".*[12]

## Cyd-destun

**36.** Yn y Cyfrifon, dywed y Comisiwn ei fod wedi adolygu ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddechrau'r Chweched Senedd, gyda'r adroddiad ar y Dangosyddion Corfforaethol ar gyfer 2022-23 y flwyddyn gyntaf o adrodd ar y Dangosyddion ers yr adolygiad hwn.[13] Mae'r Comisiwn yn egluro nad yw data'r blynyddoedd blaenorol ar gael ar gyfer pob dangosydd.

**37.** Mae'r Cyfrifon yn nodi 15 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn erbyn tri nod strategol y Comisiwn, o gymharu â 17 o Ddangosyddion ar gyfer 2021-22. O'r 15 o Ddangosyddion, maent yn cynnwys 9 sydd yr un fath â 2021-22, er y gallai'r targedau fod yn wahanol (lle y'u nodir), cafodd 2 eu cynnwys yn 2021-22 ond mae'r Comisiwn wedi diwygio sut mae'n mesur perfformiad yn eu herbyn, ac mae 4 yn

[11] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2020
[12] Llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 20 Ionawr 2021
[13] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 33

newydd ar gyfer 2022-23. Cafodd y Dangosyddion a ganlyn, ynghyd â'u nodau strategol perthnasol, eu cynnwys yn 2021-22, ond nid yn 2022-23:

- Nod strategol: darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- DPA3 – Arolwg boddhad Aelodau o'r Senedd/Staff Cymorth ar gyfer darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf.
- DPA4 – dangosydd ymestyn – arolwg boddhad Aelodau o'r Senedd/Staff Cymorth ar gyfer cefnogi'r Aelodau i weithio yn yr iaith o'u dewis.
- Nod strategol – cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- DPA6 – cymryd rhan mewn rhwydweithiau seneddol rhyngwladol perthnasol.
- Nod strategol – defnyddio adnoddau'n gynaliadwy
- DPA9 – cyrhaeddiad o ganlyniad i hyrwyddo ymchwiliadau pwyllgorau a lansio adroddiadau.
- DPA12 – mae'r sgôr hapusrwydd o'r arolwg staff yn cyfateb â sgôr Ganolrif y Gwasanaeth Sifil, neu'n uwch na'r sgôr hwnnw.
- DPA16 – dangosydd ymestyn – canran yr allyriadau teithio busnes sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gar.

**38.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch y broses o adolygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"We had a review of our KPIs, and that starts with a service-level review of what is useful for us to measure. There was a particular change in the communications and engagement KPIs, because of the adoption of a new communications strategy".*[14]

[14] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 56

## Perfformiad 2022-23

### Crynodeb

**39.** Mae dadansoddiad Ymchwil y Senedd o'r Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ar gyfer 2022-23 yn dangos:

- Bodlonwyd neu rhagorwyd ar chwe Dangosydd;
- Bron â bodlonwyd pedwar Dangosydd neu cawsant eu bodloni i raddau helaeth;
- Mae gan un Dangosydd darged o ddiwedd y Chweched Senedd heb unrhyw dargedau carreg filltir wedi'u nodi yn y Cyfrifon; ac
- Nid osodwyd targedau ar gyfer pedwar Dangosydd.

**40.** Yn yr adroddiad, mae'r Comisiwn yn nodi:

> *"Yn ystod y pandemig COVID-19, gwnaeth Comisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa a oedd yn newid a bu i rai o'n ffyrdd o weithio addasu o ganlyniad i hynny. Dylid cadw hyn mewn cof wrth wneud cymariaethau uniongyrchol flwyddyn ar ôl blwyddyn".*[15]

### Ymgysylltu (Dangosyddion Perfformiad Allweddol 5-7)

**41.** Cymeradwyodd y Comisiwn Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yn 2022-23, sy'n "canolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig y rheini sy'n teimlo nad yw eu lleisiau wedi'u clywed yn draddodiadol gan sefydliadau fel y Senedd"[16]. Mae gan y Comisiwn dri Dangosydd Perfformiad Allweddol o dan ei nod strategol o gael dinasyddion wrth wraidd popeth a wna, gan gynnwys:

- DPA5 – ymgysylltu â dinasyddion. Er nad yw'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn yn newydd, mae'r Comisiwn wedi diwygio sut mae'n gwerthuso perfformiad yn ei erbyn, y mae'n dweud sydd bellach yn cyfuno'r holl weithgarwch a ddarperir gan y Gwasanaeth Ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau, teithiau, sesiynau addysg, Senedd Ieuenctid Cymru, cymorth ymgysylltu â dinasyddion i bwyllgorau ac

[15] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 35
[16] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 76

ymwelwyr â'r Senedd. Er nad oes targed wedi'i osod, mae'r Comisiwn yn egluro y bydd y mesur newydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel meincnod ar gyfer perfformiad yn y dyfodol. Dengys y data, yn 2022-23, fod 93 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru yn ymwybodol o rôl y Senedd, roedd gan 95 y cant ddealltwriaeth o waith y Senedd ac roedd 89 y cant yn debygol o gymryd rhan yng ngwaith y Senedd yn y dyfodol.

- DPA6 – dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Senedd. Yn gyffredinol, mae'r ffigurau wedi cynyddu tua 7,000 yn 2022-23 o gymharu â 2021-22, sef cynnydd o 6.4 y cant. Nid oes targed wedi'i osod ar gyfer y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn.

- DPA7 – ymgysylltu â llwyfannau dosbarthu cyfryngau. Mae'r Dangosydd hwn yn ymwneud â sut mae'r Comisiwn yn ymwneud â hyrwyddo ymchwiliadau'r Pwyllgorau a lansiadau adroddiadau, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei ddangos yn 2022-23 o gymharu â 2021-22 a 2020-21, gyda chynnydd sydyn mewn gweithgarwch o fis Rhagfyr 2022 ymlaen.

### Dysgwyr Cymraeg (DPA11)

**42.** Mae'r Comisiwn yn nodi y bu cynnydd sylweddol yn nifer cyfartalog y dysgwyr Cymraeg cofrestredig, i fyny o 59 i 103 o gymharu â 2021-22.

### Strategaeth Carbon Niwtral (DPA14)

**43.** Mae Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn wedi ymrwymo i £925,000 o fuddsoddiad ariannol, gyda'r bwriad o arbed 582 tunnell o garbon erbyn 2030, gydag arbedion ariannol o £360,000 dros y cyfnod. Roedd £130,000 i'w fuddsoddi yn ystod 2021-23, gydag arbediad carbon o 241 tunnell ac arbediad ariannol o £150,000 dros y tair blynedd hyd at 2023.

**44.** Mae'r Adroddiad Cynaliadwyedd ar gyfer 2022-23[17] yn crynhoi perfformiad y Comisiwn yn erbyn y targedau hyn, gan ddangos bod dau o'r pedwar prosiect wedi'u cwblhau, gan gynnwys "newid ymddygiad a cynnal a chadw da", a "monitro – meddalwedd a mesuryddion ychwanegol"[18]. Mae dau brosiect heb eu cyflawni o hyd:

[17] Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2022-2023
[18] Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2022-2023, tudalennau 20-21

- Gwelliant i'r system rheoli adeiladau (tri adeilad), a ddisgrifir fel 50 y cant wedi'i gwblhau.
- Goleuadau LED – ailosod ac adolygu rheolyddion yn barhaus. Amcangyfrifir bod 75 y cant wedi'i gwblhau.

**45.** Mae’r targed o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cyfeirio at leihau ôl troed carbon y Comisiwn o 1150 tunnell yn 2019-20, y flwyddyn sylfaen, i 500 tunnell erbyn 2030. Mae'r Comisiwn yn adrodd bod y targed o 955 tunnell erbyn mis Mawrth 2023 wedi'i gyrraedd, sef 827 tunnell[19], a gyflawnwyd drwy fesurau effeithlonrwydd gaeaf gyda'r nod o leihau defnydd y Comisiwn o nwy.

**46.** Pan holwyd Cyfarwyddwr Adnoddau’r Senedd sut y cyflawnwyd y targed hwn, gyda dau o’r prosiectau heb eu cwblhau, eglurodd:

> *“… a significant part of that was the energy-saving measures that we brought in. So, lowering the heating set point across the estate made a significant difference… for example using the zonal system on Fridays on the estate, and other days, to make sure that we're as energy efficient as possible, in addition to the life-cycle projects that you can see in the list, helped us deliver that target”.*[20]

**47.** Pan ofynnwyd iddo gadarnhau a oedd y Comisiwn ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau tymor canolig, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr ei fod[21].

**48.** Dywed y Comisiwn ei fod yn bwriadu mabwysiadu methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo “allyriadau Cwmpas 3”, sy'n cynnwys nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, yn ogystal â theithio busnes[22].

**49.** Bydd hefyd yn cynnwys effaith gweithio gartref, y mae'n amcangyfrif y bydd yn ychwanegu 290 tunnell at ei ôl troed carbon. Fodd bynnag, caiff y cynnydd hwn ei wrthbwyso gan leihad o 300 tunnell mewn cymudo ac, fel y cyfryw, “*gall* gweithio o gartref ddangos budd net [pwyslais wedi'i ychwanegu gan y Comisiwn]”[23]. Mae hefyd yn nodi targedau eraill ar gyfer gwastraff, plastig, dŵr a

[19] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 41
[20] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 59
[21] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 61
[22] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 100
[23] Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2022-2023, tudalen 16

bwyd. Er nad yw'r rhain wedi'u cwmpasu gan Ddangosydd Perfformiad Allweddol, mae'r canlyniadau ar gyfer 2022-23 yn cynnwys[24]:

- Gostyngodd y defnydd o nwy 20 y cant, gyda'r defnydd o drydan i fyny 1 y cant.
- Cynyddodd y defnydd o wastraff 27 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond nid anfonwyd unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.
- Mae teithio ar tua hanner y lefelau cyn y pandemig.

**50.** Mewn perthynas â chynnwys allyriadau Cwmpas 3, dywed y Comisiwn:

> *"Er ei fod yn seiliedig ar wariant yn unig i ddechrau, hyd nes y bydd gwybodaeth fanylach gan gyflenwyr ar gael, bydd i bob pwrpas yn dyblu ein hôl troed carbon - gan ychwanegu tua 900 tunnell ato. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi man cychwyn clir inni ac mae'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i fwrw ymlaen ag ef".*[25]

**51.** Pan holwyd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ynghylch gallu'r Comisiwn i gyflawni buddsoddiadau ar gyfer y strategaeth garbon niwtral, o ystyried y pwysau chwyddiant parhaus, dywedodd:

> *"… we are in line with our strategy and our estimated cost. There's a project review process, project by project, and we are on track with each of those projects with no significant underspending and no significant overspending".*[26]

### Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru (DPA15)

**52.** Yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor fel rhan o'r gwaith craffu ar Gyfrifon 2020-21[27], mae targed y Comisiwn ar gyfer gwariant gyda chyflenwyr o Gymru wedi'i gynyddu o 43 y cant i 50 y cant, i'w gyflawni erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Mae'r Comisiwn yn adrodd, dros y deuddeg mis diwethaf, ei fod wedi cynyddu ei wariant gyda chyflenwyr o Gymru o 45 y cant i 47 y cant[28]. Dywed y

[24] Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2022-2023, tudalennau 24-29
[25] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 100
[26] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 63
[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2020-21: Comisiwn y Senedd
[28] Comisiwn y Sened,, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 41

bydd yn "parhau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd contract gyda chyflenwyr yng Nghymru".

**53.** Yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2022, cwestiynodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn sut yr oedd nifer y contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru yn cael eu mesur a'u hadrodd. Eglurodd y byddai'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd yn gweithio gyda'r Pennaeth Caffael i drafod sut y gallai hyn ymgorffori effaith economaidd Cymru o ran cyflenwyr, yn hytrach na chyflenwyr sydd â phresenoldeb yng Nghymru yn unig[29].

**54.** Pan holwyd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd sut yr oedd y trafodaethau hyn wedi datblygu, eglurodd:

> *"... some organisations in the public sector do take that simple measure of the postcode of the head office. We require, through our main contracts, that the contractors use Welsh suppliers and the supply chain as much as possible, within the law, I hasten to add, but we emphasise that through our contractual requirements and we monitor that".*[30]

**55.** Aeth y Prif Weithredwr a'r Clerc ymlaen i ddweud fel a ganlyn:

> *"You'll have seen that we're at 47 per cent now, and we have a stretch target of 50 per cent. It is going to be more difficult as we get closer to contracts like software licensing and so on, where it is more challenging for us to source the services from within Wales, but I'm sure we'll be reporting back to you regularly on how that's going".*[31]

## Ein barn ni

**56.** Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi gan berfformiad y Comisiwn mewn perthynas â chyfres o fesurau Dangosydd Perfformiad Allweddol, yn enwedig ar wariant gyda chyflenwyr o Gymru, y Strategaeth Carbon Niwtral a dysgwyr Cymraeg. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau parhaus ar gynnydd y Comisiwn yn erbyn ei nodau tymor canolig sy'n deillio o'r Strategaeth Carbon Niwtral, yn ogystal

---

[29] Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 15 Mehefin 2022
[30] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 66
[31] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 67

â'r cynnydd o ran cyrraedd targed ymestyn o 50 y cant o wariant gyda chyflenwyr o Gymru.

**57.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a achosir gan gostau cynyddol wrth gyflawni prosiectau allweddol y Strategaeth Garbon Niwtral, a hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Comisiwn yn y maes hwn, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i fod o fewn ei wariant amcangyfrifedig ac yn gallu cyflawni'r prosiectau sydd eu hangen i gyrraedd y targedau tymor canolig a thymor hir a nodir yn y Strategaeth.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Comisiwn sicrhau bod gan y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu prosiectau fel rhan o'r Strategaeth Carbon Niwtral cyn i'r Pwyllgor graffu ar Gyfrifon y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys gwariant fesul prosiect, y cynnydd hyd y pwynt hwnnw ac arwydd o unrhyw orwariant neu danwariant.

# 4. Y trefniadau llywodraethu a'r rheolaethau mewnol

## Strwythur llywodraethu

**58.** Er na fu unrhyw newidiadau ar lefel Prif Weithredwr na Chyfarwyddwr, bu symudiad o ran staff uwch, gan gynnwys newid yn y Prif Swyddog Cyllid[32] a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol, a oedd wedi cyflawni'r rôl yn flaenorol ar sail secondiad ac ymgynghoriaeth (ers mis Awst 2019)[33].

**59.** Mae strwythur llywodraethu'r Comisiwn yn cynnwys dau gorff cynghori annibynnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw sicrwydd ac a yw'n diwallu anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, tra bod y Pwyllgor Taliadau yn gwneud argymhellion ar dâl a thelerau gwasanaeth Clerc y Senedd a swyddi uwch eraill.

**60.** Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi disodli'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch y cymhelliant dros wneud hyn, eglurodd:

> *"As the Commission's needs and priorities develop and vary over time, obviously, the nature of the contribution it requires from its independent advisers needs to adapt as well. In that particular case, the remuneration committee has a core brief of providing advice to the Commission on the salaries of senior staff and the performance of senior staff. We had expanded that to include other workforce-related issues as well… we have established separate diversity and workforce engagement steering groups, which are going to be respectively chaired by two very well-qualified independent advisers, and they then continue to do the core work of reporting on senior remuneration whilst adding value to the Commission by doing these closer investigations into subjects that are of importance to us".*[34]

[32] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 119
[33] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 144
[34] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 71

**61.** Mae cylch gorchwyl, agendâu cyfarfodydd a chofnodion cryno y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gael i'r cyhoedd, tra maent hefyd yn cyhoeddi cyfres o adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol, blaenraglen waith a chynllun archwilio.

**62.** Yn y Cyfrifon, mae'r Comisiwn yn nodi bod Archwilwyr Mewnol wedi adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol a bod adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol yn parhau[35]. Fel rhan o waith craffu y Pwyllgor ar Gyfrifon 2021-22 y Comisiwn, soniodd y Clerc a'r Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor am adolygiadau eraill o strwythurau llywodraethu, gan gynnwys y trefniadau newydd ar gyfer uwch-reolwyr.

> *"Mi fyddwn ni yn cael cyfle i edrych ar effeithiolrwydd y newidiadau yma pan fyddwn ni'n cynnal ein hadolygiad rheolaidd nesaf ni o'r trefniadau llywodraethiant mewnol. Mae hynny'n digwydd yn y tymor hydref yma—nid tymor y Senedd, tymor yr hydref—yn y flwyddyn ariannol bresennol, adolygiad o waith ein bwrdd rheoli gweithredol ni a'n tîm arwain ni, sydd yn grŵp ehangach o benaethiaid y gwasanaethau. Mi fyddwn ni'n edrych ar hynny wrth symud ymlaen."*[36]

**63.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch canfyddiadau'r adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol, eglurodd:

> *"I think it did expose some important themes that needed to be addressed: a lack of shared understanding around the relationship between the Commission and the board, possibly a loss of confidence and trust in the board from some sections of the Members and support staff, and concerns about the complexity and difficulty of interpreting the determination. I mean, those are findings that were the board's findings, and in the first place for them to address, but those are issues that concern us too in the Commission and concern me as accounting officer".*[37]

[35] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 133
[36] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Hydref 2022, paragraff 90
[37] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 81

## Ffyrdd o weithio

**64.** Ym mis Mawrth 2022, cyfunodd y Comisiwn ei Strategaeth Ystadau, Strategaeth Cynaliadwyedd (Carbon Sero Net) a dau adolygiad a gwblhawyd yn flaenorol (Adolygiadau Dyfodol Ystwyth a Chapasiti) yn strategaeth Ffyrdd o Weithio integredig, ynghyd â rhaglen gyflawni gysylltiedig[38].

**65.** Bwriedir i'r rhaglen a'r strategaeth Ffyrdd o Weithio gyflawni ymateb 'cefn swyddfa' y Comisiwn i Ddiwygio'r Senedd ac i osod ei weledigaeth a'i uchelgais ar gyfer sut y mae'n cefnogi'r Senedd[39]. Caiff Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio eu nodi gan y Comisiwn fel y ddwy raglen drawsnewid fawr.

**66.** Mae'r Cyfrifon yn cyfeirio at ffurfio'r Uned Cynllunio Strategol, sy'n goruchwylio'r berthynas rhwng y rhaglenni Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd[40]. Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ym mis Tachwedd 2022, fod yr Uned hon yn cynnwys 'swyddi wedi'u hailbwrpasu' yn bennaf.[41].

**67.** Pan holwyd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ynghylch strwythur llywodraethu'r Strategaeth, cadarnhaodd ei fod yn Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer y prosiect, gyda bwrdd rhaglen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl feysydd gwasanaeth allweddol. Mae'r bwrdd hefyd yn cynnal deialog rheolaidd gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… we have three work streams. There are identified work stream leads, and there are five live projects, again with project leads and project groups… We've also established, because we've got two change programmes running at the same time, a small unit called the strategic planning unit that helps the executive board manage those two change programme(s). There's a regular programme report that goes from the strategic planning unit to the executive board to report on the health of the programmes and to help us manage the governance".*[42]

**68.** Pan holwyd y Cyfarwyddwr ynghylch set sgiliau'r staff sy'n gysylltiedig â'r Uned Cynllunio Strategol, cadarnhaodd fod tair rôl o fewn yr uned, gan gynnwys

[38] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 90
[39] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 90
[40] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 88
[41] Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 21 Tachwedd 2022
[42] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 111

Pennaeth Uned, Rheolwr Rhaglen a Chydgysylltydd Rhaglen[43]. Pan holwyd y Cyfarwyddwr ynghylch sut mae'r uned yn cysylltu'r Strategaeth Ffyrdd o Weithio â diwygio'r Senedd (a adlewyrchir yn y gofrestr risg, fel y manylir isod), eglurodd:

> *"The functions are to assist the executive board with the corporate planning, so it leads on the corporate delivery plan for the organisation, it leads on programme co-ordination between the Senedd reform and the ways of working programmes, and under the corporate planning banner it leads on service planning and the development of the medium-term resourcing framework as well".*

## Sicrwydd

**69.** Mae'r Comisiwn yn amlinellu ei fframwaith sicrwydd yn y Cyfrifon[44] ac yn egluro bod Ymgynghorwyr Annibynnol yn profi cefnogaeth a her adeiladol i'r Pwyllgor a'i waith[45]. Ym mis Tachwedd 2022, dechreuodd tri Chynghorydd Annibynnol newydd yn eu swyddi, gan ddisodli'r rhai a oedd wedi gwasanaethu am dymor o bedair blynedd[46].

**70.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch penodi Cynghorwyr Annibynnol, cadarnhaodd eu bod wedi'u hysbysebu'n agored gyda phroses recriwtio gadarn, gan gadarnhau ei bod hi, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd, a'r prif Gynghorydd Annibynnol, Robert Evans, sy'n cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn rhan o'r broses benodi[47]. Ysgrifennodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wedyn at y Pwyllgor i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer penodi'r Cynghorwyr Annibynnol, gan gynnwys manylion am chwiliad gweithredol, y trefniadau ar gyfer hysbysebu a llunio rhestr fer a threfniadau cyfweld[48].

**71.** Pan ofynnwyd iddi sut mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn dylanwadu ar waith y Senedd, eglurodd:

[43] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 121
[44] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 131
[45] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 132
[46] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 133
[47] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 75
[48] Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Cadeirydd, 3 Tachwedd 2023

> *"… we will benefit from their advice in the area of diversity, in the area of workforce engagement. I'm also hoping that the committee will help us keep an eye on the overall structure of the organisation, particularly at senior levels. There is work starting on that now, which we'll be able to report back to you on in due course".*[49]

## Ein barn ni

**72.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y strategaeth Ffyrdd o Weithio, yn enwedig wrth i'r Senedd baratoi ar gyfer diwygio cyn Etholiadau'r Senedd sydd i ddod. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr adnoddau a neilltuir i gyflawni gwaith trawsnewidiol o'r fath a byddai'n gwerthfawrogi'r wybodaeth ddiweddaraf am y goblygiadau o ddarparu'r Strategaeth o ran adnoddau, yn enwedig wrth i'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer diwygio gyflymu.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Comisiwn roi diweddariadau bob chwe mis i'r Pwyllgor, gan ddechrau yng ngwanwyn 2024, ar gynnydd y Strategaeth Ffyrdd o Weithio a'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu i gyflawni'r prosiectau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth.

[49] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 79

# 5. Proffil risg

## Trosolwg

**73.** Mae'r Comisiwn yn cynnal Cofrestr o Risgiau Corfforaethol ac yn nodi'r risgiau a ganlyn fel y rhai mwyaf arwyddocaol ar gyfer 2022-23.[50]:

- Seiberddiogelwch;
- Cydymffurfio â deddfwriaethau Diogelu Data (Comisiwn);
- Urddas a pharch;
- Newid cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU;
- Diwygio'r Senedd (ychwanegwyd yn 2021-22);
- Fframwaith rheoleiddio (ychwanegwyd yn 2021-22);
- Gallu a chapasiti corfforaethol (ychwanegwyd yn 2022-23).

**74.** Mae'r Comisiwn yn cynnwys y risgiau hyn oherwydd eu "difrifoldeb parhaus (yn enwedig oherwydd eu heffaith bosibl) ac yn bennaf oherwydd dylanwadau allanol nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, os o gwbl"[51]. Nid yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n codi, a'u heffaith ar y Comisiwn.

**75.** Tynnwyd y risgiau a ganlyn oddi ar y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol yn ystod 2022-23:

- Coronafeirws – tynnwyd y risg hon oddi ar y Gofrestr ym mis Medi 2022, gyda'r bwriad o'i huwchgyfeirio pe bai angen; a
- Chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data (Aelodau o'r Senedd) – cafodd y risg ei huwchgyfeirio i adlewyrchu'r angen am ymwybyddiaeth ar gyfer y garfan newydd o Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Er y cafodd ei thynnu oddi ar y Gofrestr ym mis Ionawr 2023, mae'n parhau i gael ei rheoli ar lefel uwch gyda chamau lliniaru yn parhau.

[50] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 43-45
[51] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 43

## Seiberddiogelwch

**76.** Mae'r Comisiwn yn disgrifio seiberddiogelwch fel un o'i risgiau mwyaf arwyddocaol, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a gwaith archwilio a chraffu annibynnol yn cael ei wneud, gan gynnwys ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar y pwnc[52]. Eglurodd hefyd fod uwch-swyddogion TGCh yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau pellach, gan gynnwys cyflwyno Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch manwl. At hynny, rhoddir sicrwydd pellach gan adroddiad ar gynnydd yn erbyn holl argymhellion archwilio mewnol yn ymwneud â seiberddiogelwch. Dywed y Comisiwn:

> *"Yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd adnoddau ychwanegol i gryfhau rheolaethau ymhellach ac i hybu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth".*[53]

**77.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i fynd i'r afael â'r risg a berir gan seiberddiogelwch, eglurodd ei fod yn uchel ar agenda y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac, yn ystod y flwyddyn, y cyflwynwyd swyddog cydymffurfiaeth a diogelwch TGCh ychwanegol o fewn y tîm seiberddiogelwch er mwyn helpu i arwain yr ymateb i ddigwyddiadau seiber[54]. Aeth ymlaen i ddweud

> *"We've also completed another significant project to establish a security operations centre. That was completed late last year, and that is a centralised resource delivered through a third party to provide continuous assessment and analysis of the Senedd's cyber security. So that's a dedicated team of analysts monitoring networks and systems, and responding to security events in real time".*[55]

**78.** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Clerc hefyd fod dau grŵp yn edrych ar ddull y Comisiwn o ymdrin â Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac yn edrych ar sut i liniaru'r risgiau i reoliadau cyffredinol o ran diogelu data, yn ogystal â sut i wneud y

[52] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 43
[53] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 43
[54] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 123
[55] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 123

defnydd gorau a mwyaf arloesol o ddeallusrwydd artiffisial[56]. Eglurodd fod y Comisiwn yn ystyried ailbwrpasu swydd wag i greu rôl newydd yn y maes hwn, yn ogystal â gweithio gyda chwmni allanol.

## Diwygio'r Senedd

**79.** Yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2021-22, roeddem yn argymell fel a ganlyn:

> *"Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Sicrwydd Risg, yn benodol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer diwygio'r Senedd yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ystyriaethau staffio ac ariannu yn y dyfodol. [Argymhelliad 2]".*[57]

**80.** Ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2023 gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd y diweddariad yn nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2022 am y trefniadau llywodraethu ar gyfer y prosiect diwygio, gan gynnwys rôl Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd. Aeth y llythyr ymlaen i egluro:

> *"Yn ogystal â pharatoi ar gyfer busnes seneddol y Seithfed Senedd, roedd hyn hefyd yn cynnwys cydgysylltu a chefnogi taith Bil Diwygio'r Senedd a diwygio'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau a chyflawni'r rhaglen Ffyrdd o Weithio a busnes fel arfer".*[58]

**81.** Mae'r llythyr yn nodi bod risg Diwygio'r Senedd, o dan y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol, wedi'i diweddaru i gynnwys "risgiau ychwanegol ynghylch effaith bosibl y newid yn yr hinsawdd economaidd ar gyllidebau, capasiti, a phenderfyniadau gwleidyddol ynghylch y cyfeiriad teithio"[59]. Mae'n nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi'i 'sicrhau' ynghylch y trefniant llywodraethu sydd ar waith, yn ogystal â'r dull o reoli prosiectau, ond ei fod yn cydnabod "yr heriau o ran dyrannu amser ac adnoddau i gefnogi'r broses graffu

[56] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 123
[57] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Comisiwn y Senedd, Rhagfyr 2022
[58] Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Cadeirydd, 11 Gorffennaf 2023
[59] Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Cadeirydd, 11 Gorffennaf 2023

ddeddfwriaethol ochr yn ochr â chyflawni ffrydiau gwaith y rhaglen a gweithgareddau busnes fel arfer”.[60]

## Gallu a chapasiti corfforaethol

**82.** Dywed y Comisiwn yr ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr “…i gydnabod yr angen am fecanweithiau cadarn er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl iawn, gyda’r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi’r gweithlu gwydn ac addasadwy i gyflawni’r newidiadau trawsnewidiol sylweddol”[61].

**83.** Fel rhan o Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig y Comisiwn, mae’r Comisiwn yn datblygu Cynllun Gweithlu gyda’r bwriad o helpu i “sicrhau bod y bobl gywir, gyda’r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi gweithlu gwydn sy’n gallu addasu”[62].

## Ein barn ni

**84.** Er y cred y Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o’r risgiau sy’n wynebu’r Senedd, a’r strategaethau sy’n ymwneud â lliniaru’r risgiau hynny, nodwn nad yw’n datgan pa mor debygol yw hi y bydd risg yn codi.

**Argymhelliad 3.** Fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon, dylai'r Comisiwn ystyried cynnwys amcangyfrif o'r tebygolrwydd y bydd risg yn codi, er mwyn llywio ystyriaeth well o broffil risg y Senedd yn y dyfodol.

**85.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yng ngwaith y Comisiwn gyda Deallusrwydd Artiffisial, a hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau yn y maes hwn a sut y byddant yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ffyrdd o Weithio.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y grwpiau sy'n edrych ar rôl Deallusrwydd Artiffisial yn y Senedd cyn i'r Pwyllgor graffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2023-24.

[60] Llythyr gan y Prif Weithredwr a’r Clerc at y Cadeirydd, 11 Gorffennaf 2023
[61] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 44
[62] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 27

# 6. Staff

## Nifer y staff

**86.** Fel y nodir yn y tabl isod, ar ôl aros yn weddol sefydlog dros y tair blynedd flaenorol, mae cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) wedi cynyddu gan 13 o staff cyfwerth ag amser llawn, i 473 cyfwerth ag amser llawn yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Mae'r cynnydd wedi'i wasgaru dros dri chategori o staff, er bod mwy o gynnydd yn cael ei adrodd ar gyfer staff cyflogedig a staff ar secondiad, o gymharu ag ar gyfer staff dros dro/achlysurol. Y cyfartaledd dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 yw 473.4 cyfwerth ag amser llawn, sef cynnydd o 15.8 cyfwerth ag amser llawn, neu 3.5 y cant o gymharu â'r flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022.

Tabl 4: Tuedd mewn staff cyfwerth ag amser llawn

| | 31-Mar-18 | 31-Mar-19 | 31-Mar-20 | 31-Mar-21 | 31-Mar-22 | 31-Mar-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm staff cyfwerth ag amser llawn | 444.6 | 454.1 | 459 | 461 | 460 | 473 |
| | | | | | | |
| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
| Staff cyfwerth ag amser llawn - cyfartaledd | 451.2 | 442.8 | 453.4 | 461.3 | 457.6 | 473.4 |

**87.** Fel y dangosir yn y tabl isod, cynyddodd cyflog cyflogeion ar y 50fed (canolrif) a'r 75ain canradd ar gyfer 2022-23 gan 2.7 y cant o gymharu â 2021-22. Cynyddodd cyflog cyflogai ar y 25ain canradd yn 2022-23 gan 14.2 y cant o gymharu â 2021-22.

Tabl 5: Tuedd mewn cyflog canolrifol

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2022-23 v 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog cyflogai ar y 25ain canradd[1] | | | | £25,459 | £27,271 | £31,137 | 14.2% |
| Cyflog cyflogai ar y 50fed canradd (cyflog canolrifol) | £33,304 | £34,315 | £37,647 | £38,362 | £39,360 | £40,422 | 2.7% |
| Cyflog cyflogai ar y 75ain canradd[1] | | | | £48,531 | £49,793 | £51,137 | 2.7% |

Er gwybodaeth: [1]cyn 2021-22, roedd angen datgeliad ar gyfer y cyflog canolrifol yn unig.

**88.** Mae'r Comisiwn yn nodi bod taliad costau byw o £500 wedi'i roi i staff ar fandiau cyflog Cymorth Tîm a Gweithredol Gradd 1, y mae'r ddau yn is na'r cyflog

cyfartalog yn y DU, wedi'i ledaenu dros fis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth 2023[63]. Cafodd yr holl staff y Cyflog Byw o leiaf[64].

## Absenoldebau a salwch staff

**89.** Adroddir cyfraddau salwch fel canran, yn ogystal â dyddiau a gollwyd fesul person. Nid oes esboniad pam mae un dangosydd yn dangos gostyngiad blynyddol a'r llall yn dangos cynnydd. Gostyngodd y cyfraddau salwch i 2.83 y cant o 3.03 y cant, gan aros yn is na'r lefelau cyn y pandemig, a oedd rhwng 3.66 y cant a 4.00 y cant, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 6: Cyfraddau absenoldebau oherwydd salwch (%)

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd dreigl gyfartalog 12 mis - absenoldeb oherwydd salwch | 3.77% | 3.66% | 4.00% | 2.07% | 3.03% | 2.83% |

**90.** Cynyddodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn i gyfartaledd o 7.4 diwrnod a gollwyd fesul person, i fyny o 6.7 diwrnod yn 2021-22[65]. Nodir bod hyn yn parhau i fod yn is na meincnod y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ddefnyddir i fonitro salwch. Collwyd 1,076 o ddiwrnodau oherwydd absenoldebau yn ymwneud ag iechyd meddwl, sy'n cyfrif am 30 y cant o gyfanswm yr absenoldebau, o gymharu â 1,453 o ddiwrnodau a 48 y cant o'r cyfanswm yn 2021-22[66]. Mae'r Comisiwn yn adrodd ar hyn fel dychweliad i lefelau cyn y pandemig.

## Trosiant staff

**91.** Mae'r Comisiwn yn nodi y bu cynnydd yn ei drosiant ar gyfer 2022-23 i 9.08 y cant, i fyny o 7.21 y cant y flwyddyn flaenorol, ond islaw'r cyfartaledd pedair blynedd o 9.42 y cant a chyfartaledd y DU ar gyfer y gyfradd ymddiswyddiad gwirfoddol, a oedd yn 16.4 y cant yn ôl Xpert HR[67].

**92.** Mae Adroddiad y Comisiwn ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal 2022-23 yn dangos bod 37.8 y cant o'r trosiant ar radd Cymorth Tîm, gyda 32.4 y cant pellach ar Fand Rheoli 2 (Swyddog Gweithredol Uwch neu 'HEO'). Roedd 5.4 y cant o'r trosiant ar Fand Gweithredol 1

[63] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 162
[64] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 146
[65] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 154
[66] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 154
[67] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 154

a staff Uwch (gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr)[68]. Dywed y Comisiwn:

> *"Ar y cyfan, mae'r trosiant wedi aros yn weddol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf heb newid ym Mand Gweithredol 1 tan y flwyddyn adrodd hon a newid bach ar lefel staff uwch yn 2022. Gallai'r trosiant isel ar lefelau gweithredol ac uwch amharu ar ein gallu i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth o safbwynt rheoli talent a/neu recriwtio ar lefel penderfyniadau uwch. Ar yr un pryd, rydym yn falch bod ein staff eisiau aros yn ein gweithlu ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad".*[69]

**93.** Yn 2022-23, gadawodd 41 o bobl y Comisiwn a chynhaliodd 24 ohonynt gyfweliad ymadael ffurfiol[70]. Roedd y rhesymau a roddwyd dros adael yn cynnwys y llwyth gwaith, dull rheoli, aflonyddu/gwahaniaethu, natur y gwaith a diffyg cyfleoedd am ddyrchafiad, yn ogystal â dod yn hunangyflogedig, ymddeol neu gael dyrchafiad. Mae'r Comisiwn yn egluro fel a ganlyn:

> *"Byddwn yn parhau i fonitro data ein staff sy'n gadael ac yn gweithredu ar y wybodaeth pan fo angen, i wneud gwelliannau i bolisïau neu nodi lle y mae angen ymyriadau sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i e.e. dysgu a datblygu ar gyfer rheolwyr llinell, cynllunio polisïau, cynllunio'r gweithlu, dylunio swyddi ac adolygu tirlun y farchnad lafur.".*[71]

**94.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc a oedd y Comisiwn wedi dadansoddi trosiant yn ôl hyd gwasanaeth, yn hytrach na gradd, eglurodd:

> *"It tells us that over the last five years, the majority of leavers had less than three years' service, but retention rates beyond that were consistent. Most of our staff leave through resignations, or they transfer to other Government departments. And given the nature of the work we do and the pace, we do occasionally employ people on*

[68] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 22
[69] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 22
[70] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 41
[71] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 43

> *fixed-term contracts, and that will have contributed to those statistics".*[72]

**95.** Holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc hefyd ynghylch dosbarthiad daearyddol y staff, gyda dadansoddiad o ble mae crynodiad uwch o raddau penodol o fewn y sefydliad. Eglurodd:

> *"I would say that the ways of working offer us some opportunities to break out of a cycle of having to employ people who live within close proximity to the office in Cardiff. We do have one other office, as the committee will be aware, up in north Wales, so that is something—. We certainly want to take advantage of talented people who want to contribute to our work, wherever in Wales or, indeed, wherever, full stop, they live".*[73]

**96.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch yr anhawster wrth fynd i'r afael â meysydd o dangynrychiolaeth neu o ran denu talent newydd i'r sefydliad, oherwydd trosiant isel, eglurodd fel a ganlyn:

> *"… with turnover, as with everything else, it's a matter of balance. Too much turnover and there is instability, and we're losing precious skills and corporate experience that is very valuable; too little and we can stagnate…*
>
> *in terms of under-representation of people with protected characteristics, then it certainly doesn't make our life any easier, and we do have fairly low turnover at senior and executive levels, so we bank the benefits of that, which I've just described. But we approach potential under-representation from two angles… as well as seeking new talent from a diverse field of candidates and trying to make sure that there are as few barriers as possible to people applying for jobs here, then we do try to develop the existing talent we already have*

[72] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 134
[73] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 136

> *within the Commission as well so that they proceed within the organisation and are promoted".*[74]

## Amrywiaeth y gweithlu

**97.** Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n cynnwys polisïau, camau gweithredu a ffigurau manwl, ynghyd â'r Cyfrifon. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi'r Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, a gyhoeddwyd yn flaenorol fel dau allbwn.

### Rhywedd

**98.** Roedd gweithlu cyffredinol y Comisiwn, ar 31 Mawrth 2023, yn gytbwys o ran rhywedd. Mae'r Comisiwn yn nodi mai "menywod yw 48 y cant o'r staff yn ein tri band cyflog uchaf, ychydig yn llai na 50 y cant y llynedd"[75].

**99.** Am y tro cyntaf, nid oes bwlch cyflog o ran cyflog canolrifol, ond mae cyflogau cymedrig yn uwch ar gyfer menywod na dynion. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn 2022-23 oedd -4.8 y cant, i lawr o -6.5 y cant yn 2021-22[76].

**100.** Nid oes staff wedi nodi eu bod yn anneuaidd neu'n draws.

### Ethnigrwydd

**101.** Ym mis Mehefin 2022, ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor[77]. Mae'r rhain yn ymwneud â gwaith y Comisiwn i geisio deall ysgogwyr sy'n arwain at y gynrychiolaeth isel yn y gweithlu o gymunedau ethnig lleiafrifol a grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a'r polisïau i leihau rhwystrau i'r grwpiau hyn a grwpiau amrywiol eraill.

**102.** Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2021-22, anogodd y Pwyllgor y Comisiwn i gadw mewn cysylltiad gyda diweddariadau, wrth iddynt

---

[74] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraffau 138-139
[75] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2022-2023, Mehefin 2023, tudalen 25
[76] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2022-2023, Mehefin 2023, tudalen 29
[77] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at y Cadeirydd, 29 Mehefin 2022

godi, o ran prosiectau recriwtio staff sydd â'r nod o hybu amrywiaeth y sefydliad, yn ogystal â chynnydd menter YMLAEN, ymhlith eraill[78].

**103.** Mae 91.6 y cant o weithlu'r Comisiwn yn nodi eu bod yn wyn, gyda 4.5 y cant yn nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol ac roedd yn well gan 3.9 y cant beidio â dweud[79]. Mae'r Comisiwn yn nodi, yn ôl data Cyfrifiad 2021, bod 15.7 y cant o'r bobl yng Nghaerdydd a 5.1 y cant o bobl yng Nghymru yn ystyried eu bod yn dod o gymuned ethnig leiafrifol[80]. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Mae 45.5 y cant o'n staff sy'n nodi eu bod o leiafrif ethnig (10 o 22) yn cael eu cyflogi ar ein band cyflog isaf (gradd Cymorth Tîm). Mae hyn wedi gostwng o 57.1 y cant yn 2021 a 50 y cant yn 2022".*[81]

**104.** Cynyddodd cyfran y ceisiadau allanol gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol i 13 y cant yn 2022-23, i fyny o 11.0 y cant yn 2021-22 a 7.7 y cant yn 2020-21[82]. Cynigiwyd 4.9 y cant o swyddi allanol i ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol, i lawr o 7.5 y cant yn 2021-22. Ni chynigiwyd unrhyw swyddi mewnol i ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol, o gymharu â 5.3 y cant yn 2021-22.

**105.** O ran y bwlch cyflog, mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd (mewn perthynas â chyflog fesul awr) yn sylweddol, ond mae wedi gostwng am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r bwlch cyflog cymedrig yn 23.5 y cant, i lawr o 26.1 y cant yn 2021-22 a 28.1 y cant yn 2020-21. Gwelwyd gostyngiad mwy sylweddol yn y bwlch cyflog canolrifol, i 23.6 y cant, i lawr o 35.8 y cant yn 2021-22 a 38.9 y cant yn 2020-21, sy'n ei wneud yn gyson â'r bwlch cyflog cymedrig[83]. Mae'r Comisiwn yn egluro:

---

[78] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Comisiwn y Senedd, Rhagfyr 2022
[79] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 14
[80] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 29
[81] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 29
[82] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 14
[83] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 16

> *"... bod angen gofal wrth adolygu'r bwlch cyflog hwn gan mai nifer fach o staff sy'n nodi eu bod o leiafrif ethnig a bydd hyd yn oed newidiadau bach i'n proffil staffio yn effeithio ar y ffigurau".*[84]

**106.** Mae'n nodi mai'r prif resymau dros y bwlch cyflog ethnigrwydd yw'r nifer cyfyngedig o staff o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n cael eu cyflogi gan y Comisiwn fel canran gyffredinol o'r gweithlu cyffredinol; a'r dosbarthiad anwastad o staff o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a gyflogir yn bennaf ar fandiau is o'r raddfa gyflog[85].

## Cefndir economaidd-gymdeithasol

**107.** Roedd ymgeiswyr o gefndiroedd proffesiynol yn dominyddu recriwtio allanol a mewnol, yn ogystal â staff presennol y Comisiwn, gyda dim ond 27.1 y cant o gynigion swydd yn cael eu gwneud i ymgeiswyr o gefndir dosbarth gweithiol, er bod hyn yn gynnydd o 24.0 y cant yn 2021-22. Aeth 19 y cant o gynigion swyddi mewnol i ymgeiswyr dosbarth gweithiol, i lawr o 20 y cant yn 2021-22. Mae'r Comisiwn yn nodi mai'r meincnod cenedlaethol yw 39 y cant[86]. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"Gan fod hon yn set ddata rannol, byddwn yn parhau i fonitro'r data hyn ac adborth ymgeiswyr nes i ni adrodd y flwyddyn nesaf ar set ddata flynyddol lawn".*[87]

[84] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 77
[85] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 77
[86] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 37
[87] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 65

### Bylchau cyflog eraill

**108.** Mae'r Comisiwn yn nodi bod 7.4 y cant o'r gweithlu wedi datgan bod ganddynt anabledd, o gymharu â 6.3 y cant yn 2021-22[88]. Nid oes bwlch cyflog canolrifol o ran pobl sy'n nodi bod ganddynt anabledd ac mae bwlch gwrthdroadol o ran cyflog canolrifol, sef 1.28 y cant[89].

**109.** Mae 4.7 y cant o staff y Comisiwn yn nodi eu bod yn LHDC+ ar 31 Mawrth 2023, o gymharu â 4.2 y cant ar 31 Mawrth 2022, gyda chyfradd peidio â datgelu o 13.5 y cant[90]. Roedd y bwlch cyflog LHDC+ yn 0.0 y cant ac roedd y bwlch gwrthdroadol yn 6.3 y cant ar gyfer y bwlch cymedrig.

### Camau i'w cymryd

**110.** Mae'r Comisiwn yn amlinellu cyfres o gamau sydd naill ai yn yr arfaeth neu'n barhaus ac maent wedi'u nodi i "fynd i'r afael â thangynrychiolaeth cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar lefel penderfyniadau"[91]. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Datblygu fframwaith ymddygiadol newydd sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd sefydliadol.
- Datblygu Strategaeth Adnoddau a Rheoli Talent sy'n cefnogi adnoddau cynhwysol a rheoli talent y gweithlu presennol.
- Adnewyddu canllawiau i ymgeiswyr, hyfforddiant rheolwyr recriwtio ac yn cynnwys egwyddorion recriwtio cynhwysol mewn polisi recriwtio yn dilyn hyfforddiant Tîm Recriwtio.
- Parhau i fonitro cyfraddau trosi ar draws y nodweddion gwarchodedig ar gyfer ymgyrchoedd mewnol ac allanol yr holl ymgeiswyr a gwneud newidiadau gofynnol i brosesau.
- Drwy ein Cynllun Denu Ymgeiswyr, treialu strategaethau hysbysebu gwahanol, gan gynnwys cyfieithu i ieithoedd cymunedol ac allgymorth wedi'i dargedu.

---

[88] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 13
[89] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 16
[90] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 32
[91] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal, Mehefin 2023, tudalen 87

- Parhau i weithio gyda rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle i nodi sut i gefnogi cynnydd yr holl staff yn well, gan gynnwys staff â nodweddion gwarchodedig.
- Monitro amrywiaeth paneli recriwtio a chynyddu nifer ac amrywiaeth aelodau paneli.

## Arolygon

**111.** Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2021-22, roedd y Pwyllgor yn argymell:

> *"Dylai'r Comisiwn rannu crynodeb o ganlyniadau pob arolwg pwls, pan fydd ar gael, gyda'r Pwyllgor gan ganolbwyntio ar afiechyd meddwl, mynegeion afiechyd meddwl ac absenoldebau staff yn fwy cyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at adolygu canlyniadau'r arolwg staff blynyddol ar gyfer 2022. [Argymhelliad 5]"*[92]

### Arolwg llesiant

**112.** Yn ei diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Mai 2023, rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Clerc grynodeb o ganlyniad yr Arolwg Llesiant, a gynhaliwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2023, pan ymatebodd 63 y cant o'r staff.[93]. Dangosodd:

- Roedd 79 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y sefydliad yn gwneud yn dda i wreiddio llesiant yn niwylliant y gweithle (cynnydd o 2 y cant o fis Medi 2022).
- Roedd 83 y cant yn cytuno eu bod yn gallu dod â'u 'hunan gyfan' i'r gwaith (cynnydd o 2 y cant o fis Medi 2022).
- Roedd 63 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â modelau rôl uwch-reolwyr y Comisiwn ac yn annog llesiant yn y gwaith, gyda 22 y cant yn anghytuno a 15 y cant yn ymateb nad oeddent yn gwybod (dyma'r lle cyntaf y gofynnwyd y cwestiwn).

[92] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Comisiwn y Senedd, Rhagfyr 2022
[93] Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Cadeirydd, 6 Mai 2023

**113.** Roedd y canlyniadau ar gyfer y cwestiynau craidd yn tynnu sylw at ddau faes sydd angen sylw:

- Roedd 51 y cant o staff wedi gweithio tra roeddent yn sâl dros y 12 mis diwethaf (i fyny o 43 y cant ym mis Mawrth 2022 a mis Medi 2022);
- Roedd 40 y cant o'r staff wedi profi gorbryder neu straen dros y chwe mis diwethaf a oedd yn ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â'r gwaith. Er y nodwyd bod angen rhoi sylw i'r mater ar unwaith, mae'r sgôr ar gyfer y mesur hwn wedi gostwng ym mhob arolwg ers mis Mawrth 2021.

**114.** Nodwyd pum metrig fel rhai y 'gallai fod angen sylw', gan gynnwys y datganiadau a ganlyn:

- Mae staff yn cytuno bod y sefydliad yn gwneud yn dda i wreiddio llesiant yn niwylliant y gweithle.
- Sgôr llesiant meddyliol.
- Mae staff yn teimlo bod y llwyth gwaith yn rhy uchel am yr oriau y gallent eu gweithio.
- Mae staff yn cytuno eu bod yn teimlo'n gysylltiedig ar draws gwasanaethau.
- Mae staff yn cytuno bod y Senedd yn darparu digon o gymorth a gwybodaeth am opsiynau a chymorth ariannol.

**115.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch achosion o staff yn gweithio tra'n sâl, rhoddodd ragor o wybodaeth:

> *"One of the benefits of having these surveys is that we can identify issues like this. And as you say, in some cases, there will be an increase in people working whilst unwell, because they are actually well enough to work, it's just that they're not well enough to come into the office, and that might be acceptable. But we've recognised the need for more guidance on this, because we certainly need people who are*

> *unwell to take time to become well again, because we want them back, resilient, as quickly as possible".*[94]

**116.** Trafododd y Prif Weithredwr a'r Clerc hefyd y maes arall y mae angen rhoi sylw iddo, gan egluro:

> *"… we do have a working environment here that can be demanding, and we're fortunate to have a committed workforce here. So, it is important that we have a well-being strategy in place—it's a three-year strategy—to underpin our corporate well-being activity. It covers four pillars: physical, mental, financial and social connectivity… We also continue to raise awareness of mental health issues through promotion of initiatives such as the World Mental Health Day, which was just this week, and we have health and employee assistance programmes providing support and advice to employees and line managers to help those affected and impacted by mental health in the workplace".*[95]

**117.** Aeth ymlaen i nodi ei bod yn bwysig meithrin diwylliant lle gall pawb flaenoriaethu iechyd meddwl da, pa bynnag rôl sydd gan bobl yn y sefydliad[96].

## Iechyd meddwl

**118.** Roedd y diweddariad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am iechyd meddwl, gan ddarparu gwybodaeth o Arolwg Pwls Llesiant y Comisiwn[97]. Mae'r ymateb yn cynnwys graff i ddangos, o'r staff a oedd wedi'i brofi, y ffactorau a achosodd straen sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a all gynnwys:

- Llwyth gwaith – 59 y cant.
- Dyddiadau cau / galwadau munud olaf – 46 y cant.
- Cyflenwi ar gyfer rôl arall / dyletswyddau ychwanegol at fy rhai i – 29 y cant.

[94] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 156
[95] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 158
[96] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 159
[97] Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Cadeirydd, 6 Mai 2023

- Diffyg cefnogaeth gan reolwyr – 25 y cant.

**119.** Roedd y sgorau hyn i gyd yn uwch yn yr arolwg ym mis Mawrth 2023 nag ym mis Medi 2022, yn enwedig mewn perthynas â gweithio oriau ychwanegol/dyletswyddau ychwanegol a chyflenwi ar gyfer eraill, sydd wedi cynyddu'n sylweddol.

### Arolwg Pobl 2023

**120.** Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Clerc grynodeb hefyd o ganfyddiadau Arolwg Pobl 2022-23 y Comisiwn, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023. Roedd y sgôr ar gyfer pob un o'r themâu yn uwch na 60 y cant, gyda'r sgôr isaf ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli Newid (64 y cant), ac yna Dysgu a Datblygu (66 y cant), er bod y ddwy thema yn dangos cynnydd o 1 pwynt canran o gymharu â'r arolwg blaenorol.

**121.** Roedd gan bob thema arall sgorau o dros 70 y cant, er bod pedwar o'r deuddeg mesur wedi gostwng ers yr arolwg blaenorol, gyda'r gostyngiad mwyaf ar gyfer Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth a ddangosodd ostyngiad o 3 phwynt canran. Mewn perthynas â'r pwynt olaf, eglurodd y Prif Weithredwr a'r Clerc:

> *"I think there's probably an element of a reflection of the cost-of-living crisis in there... In terms of recognition, one initiative I'll mention is that we have now had staff recognition awards two years running, which are fabulous events.. It's that kind of way in which we try to take the time to recognise achievements, congratulate each other and involve everybody in the work as one big team".*[98]

**122.** Ymhelaethodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ar y pwynt hwn, gan egluro:

> *"... we've tried to recognise the inflationary pressures through a targeted cost-of-living payment and then a more general cost-of-living payment. As Manon said, we very much recognise, on the reward side, the pressures that are being felt, and just to add that,*

[98] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 163

> *looking forward, we are literally just about to start the negotiations on the future pay deal for staff with our trade union side colleagues".*[99]

## Adolygiad o Gapasiti a'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

**123.** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, ychwanegodd y Comisiwn risg o ran capasiti a gallu corfforaethol at ei Gofrestr o Risgiau Corfforaethol. Mae'r Comisiwn yn egluro y gwnaed hyn "…i gydnabod yr angen am fecanweithiau cadarn er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl iawn, gyda'r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi'r gweithlu gwydn ac addasadwy i gyflawni'r newidiadau trawsnewidiol sylweddol"[100].

**124.** Cafodd y cam cyntaf o Adolygiad Capasiti y Comisiwn ei gwblhau yn 2021-22 a chyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Arwain a'r Bwrdd Gweithredol yn y flwyddyn honno. Eglurodd y Comisiwn, yn ei Gyfrifon 2021-22, fod rhai argymhellion wedi'u cwblhau mewn perthynas â chapasiti'r gweithlu a'r defnydd hyblyg o adnoddau, tra bod argymhellion 'amser-gritigol' yn cael eu cyflawni[101]. Mae'r gweithgarwch sy'n weddill bellach wedi'i ymgorffori yn y strategaeth Ffyrdd o Weithio y cyfeiriwyd ati eisoes, gyda chydgysylltiad gan yr Uned Cynllunio Strategol[102], fel y nodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

**125.** Mae'r Comisiwn yn nodi, fel rhan o'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, bod Cynllun Gweithlu yn cael ei ddatblygu er mwyn helpu i "sicrhau bod y bobl iawn, gyda'r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi'r gweithlu gwydn ac addasadwy"[103].

**126.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch effaith chwyddiant a phwysau costau ar staff y sefydliad a sut y byddai'r Comisiwn yn ceisio cymell ac annog staff, dywedodd:

> *"I think that creating the right culture is very important in an organisation, and we are lucky to have a very committed workforce—our staff surveys show this. As you say, there are a range of ways in which we look at benefits we can offer staff working here. It's a very competitive recruitment environment. We want and need to be good*

[99] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 164
[100] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 44
[101] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 30
[102] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 121
[103] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 44

> *employers. We have won recognition in the wider world for being good employers, and we need to maintain that".*[104]

**127.** Aeth Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ymlaen i ddweud:

> *"The workforce plan is a key part of the resourcing framework, and, as I say, built on the assumption that our staffing capacity would come under pressure. A key part of that, in terms of the benefits that you asked about, Chair, was looking at pathways, so where we recruit people and how we develop them so we can build a career development opportunity pathway for people at a time where, as I say, we may not be recruiting to every single post. We're at the start of that, but that is detailed work that is now under way. We do have an outline workforce plan that sets out the framework within which measures such as that will be taken forward".*[105]

## Ein barn ni

**128.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod canlyniadau'r Comisiwn ar gyflogi staff o gefndir economaidd-gymdeithasol is yn parhau i fod yn is na'r Meincnodau Cenedlaethol. Mae gennym ddiddordeb mewn adolygu'r data ar hyn, gan ein bod yn nodi mai data rhannol yn unig a ddarperir yn y Cyfrifon hyn.

**129.** Er bod y Pwyllgor yn hynod frwdfrydig ynghylch y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i fynd i'r afael â meysydd o dangynrychiolaeth yn y Senedd, gan gynnwys drwy brosiectau fel YMLAEN, rydym yn parhau i bryderu nad yw'r sefydliad yn adlewyrchu Cymru o ran cefndir economaidd-gymdeithasol ei gyflogeion. At hynny, dylai unrhyw Gynllun Gweithlu yn y dyfodol fyfyrio ar sut y gall y sefydliad ddenu talent o bob rhan o Gymru, wrth i'r Senedd barhau i groesawu dull hybrid o weithio a darparu gwasanaethau.

**Argymhelliad 5.** Yn y dyfodol dylai'r Comisiwn ystyried rhoi cynlluniau recriwtio ar waith, fel rhan o'i Gynllun Gweithlu, er mwyn annog ceisiadau gan unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd a daearyddol, a hynny er mwyn sicrhau bod y Senedd yn adlewyrchu'n well y wlad y mae'n ei chynrychioli. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y gellid

[104] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 94
[105] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2023, paragraff 96

gweithredu hyn ac unrhyw dargedau sydd gan y sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol.

**130.** Mae’r Pwyllgor yn pryderu ynghylch capasiti’r Comisiwn i ddarparu’r gwasanaethau sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Senedd, tra hefyd yn paratoi ar gyfer Senedd gynyddol yn y dyfodol, o ystyried y costau parhaus a’r pwysau chwyddiant a wynebir gan y sector cyhoeddus ledled Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a'r Cynllun Gweithlu sy'n cael eu datblygu, gan fod heriau sylweddol yn gysylltiedig â chefnogi mwy o Aelodau, tra hefyd yn cynnal lefel y gwasanaeth a ddarparwyd hyd yma.

**131.** Mae'n hanfodol bod safbwyntiau'r Aelodau a'u staff yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i ddiwallu anghenion y Senedd. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a’r Cynghorwyr Annibynnol sydd newydd eu penodi yn hanfodol i lywio cyfeiriad y Senedd yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.** Dylid rhannu’r Cynllun Gweithlu ac unrhyw allbynnau o’r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig â’r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant ar gael, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau’r Comisiwn yn y dyfodol o ran Diwygio’r Senedd ac o dan y Strategaeth Ffyrdd o Weithio.

**Argymhelliad 7.** Dylai’r Comisiwn nodi sut y mae’n bwriadu ystyried safbwyntiau’r Aelodau a’u staff fel rhan o’r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol o dan y Strategaeth Ffyrdd o Weithio ac unrhyw ffrwd arall o waith sy’n mynd i’r afael â goblygiadau Diwygio’r Senedd.

# 7. Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
| --- | --- |
| **12 Hydref 2023** | **Manon Antoniazzi**<br>Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Comisiwn y Senedd<br>**Ken Skates AS**<br>Comisiynydd y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu<br>**Kate Innes**<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Senedd<br>**Ed Williams**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd, Comisiwn y Senedd |